Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Byw â Chymorth Glanmorfa**

**52-54 Station Road**
**Cydweli**
**SA17 4UR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Byw â Chymorth Glanmorfa

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Glanmorfa Care Home Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Mawrth 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Byw â Chymorth Glanmorfa yn wasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n darparu gofal sy'n galluogi'r bobl i fyw bywydau hapus, iach a mwy annibynnol. Mae'r bobl yn sôn yn gadarnhaol am y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r bobl. Ceir tîm cyson o staff sy'n wybodus am y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt. Mae rheolwr newydd wedi dechrau gweithio yn y gwasanaeth yn ddiweddar.

Nodwyd maes i'w wella mewn perthynas â threfniadau goruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â hyn.

## Llesiant

Mae'r bobl yn siarad yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth a'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Mae'r bobl yn cyflawni eu canlyniadau personol ac yn gwella eu sgiliau byw'n annibynnol gan eu bod yn cael cymorth wedi'i bersonoli gan wasanaeth sy'n gwerthfawrogi bod pobl yn unigryw. Mae gan y bobl lais cryf ym mhob rhan o'r gwasanaeth ac maent yn cymryd rhan weithredol yn eu trefniadau cymorth. Dywedodd un unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, "*I get to do the things I like to do and have choice over everything*".

Mae'r bobl yn datblygu cydberthnasau effeithiol â'r staff gofal, gan fod y gwasanaeth yn gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo cydberthnasau cadarnhaol sy'n hybu llesiant da i'r bobl sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae'r bobl yn byw ag urddas a pharch ac maent yn cael cymorth priodol, caredig a gofalgar gan staff gofal llawn cymhelliant y maent yn eu hadnabod yn dda. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *"They are all really caring".* Dywedodd aelod o staff y gwasanaeth wrthym, "*It is all about what matters to people".*

Rhoddir cymaint o awtonomi â phosibl i'r bobl dros eu bywydau dyddiol a gallant wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Caiff y bobl eu hannog i wella eu llesiant ac i ddod yn fwy annibynnol drwy gynllunio a chymryd rhan mewn gweithgareddau, cyfleoedd gwirfoddoli, cyrsiau addysgol, a thasgau dyddiol. Clywsom am benwythnosau i ffwrdd a llawer o weithgareddau gwerthfawr roedd y bobl wedi'u mwynhau, megis ystafelloedd dianc, teithiau i Lundain a chyfleoedd i weld 'Dancing with the Stars'. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom bobl yn mynd allan i'r gymuned ac yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt.

Nid yw'r gwasanaeth yn nodi risgiau i'r bobl nac yn ymdrin â'r risgiau hynny yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y bobl mor ddiogel â phosibl. Er bod y darparwr yn sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff gofal, mae rhai aelodau o staff wedi'u cyflogi heb gyflawni gweithdrefnau recriwtio a fetio cadarn ar eu cyfer. Nid oedd y trefniadau ar gyfer cwblhau a monitro hyfforddiant y staff, gan gynnwys hyfforddiant ar ddiogelu, yn ddigon cadarn i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn meddu ar y wybodaeth ofynnol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn y gwasanaeth. Mae'r broses ar gyfer derbyn pobl newydd i mewn i'r gwasanaeth wedi ei chynllunio'n dda. Mae'r cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn fanwl ac yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar y staff gofal er mwyn diwallu anghenion y bobl. Mae'r cynlluniau yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r bobl, eu nodau personol a sut y cânt eu cyflawni. Caiff y cynlluniau eu hadolygu mewn modd amserol ac maent yn ystyried a yw canlyniadau personol y bobl yn cael eu cyflawni.

Mae tîm o weithwyr gofal hynod ymrwymedig a llawn cymhelliant wedi'u cyflogi yn y gwasanaeth, sy'n golygu y gall y bobl feithrin cydberthnasau cadarn â'r staff gofal. Maent yn wybodus am y bobl y maent yn gofalu amdanynt ac yn ymdrin â nhw mewn ffordd empathetig ac amyneddgar. Gwelsom enghreifftiau o'r staff gofal yn deall ac yn rhagweld anghenion gofal a chymorth newidiol y bobl ac roedd yn amlwg eu bod yn ymwybodol o newidiadau yn eu llesiant. Mae'r bobl yn cael rhyddid i ddewis beth i'w wneud yn ystod y dydd a chânt eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau unigol neu weithgareddau grŵp o'u dewis.

Caiff iechyd a llesiant corfforol y bobl eu hybu. Mae'r cofnodion gofal yn dangos bod y bobl yn cael cymorth i gysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen. Mae'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn deall cyflyrau iechyd y bobl, y cymorth sydd ei angen arnynt ac yn gallu adnabod newidiadau o ran golwg ac ymddygiad arferol y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt yn brydlon. Caiff y bobl eu hannog i fod mor iach â phosibl.

Cynigir amrywiaeth o weithgareddau buddiol gan gydgysylltwyr gweithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd celf a chrefft, coginio a chael pryd bwyd gyda'i gilydd, cymryd rhan mewn hobïau a diddordebau a mynd i ddigwyddiadau cymunedol sy'n bwysig iddynt. Caiff y bobl gymorth i addurno eu gofod personol ac maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau. Mae'r bobl yn cymryd rhan weithredol yn y broses o osod nodau byrdymor a hirdymor sy'n hwyl neu sy'n rhoi mwy o annibyniaeth iddynt. Dywedodd un aelod o'r staff gofal wrthym, "*We make plans and have a wish list of what we want to achieve and it is all doable. A holiday to Butlins is the next big one".*

Mae'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn dda iawn. Mae cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff gofal pan fo'i angen.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r datganiad o ddiben yn nodi'n glir yr hyn y gall y bobl ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae canllaw ysgrifenedig ar gael sy'n rhoi gwybodaeth gywir am y gwasanaeth i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, eu perthnasau ac eraill.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob dydd ac mae'r bobl yn ei adnabod yn dda iawn. Gwelsom yr Unigolyn Cyfrifol yn rhyngweithio â'r bobl. Mae'r adolygiad diweddaraf o ansawdd y gofal yn nodi meysydd i'w datblygu a'u gwella ac yn defnyddio safbwyntiau'r bobl i ddatblygu a gwella'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Er bod yr Unigolyn Cyfrifol yn bresennol yn y cartref bob dydd, ni allem fod yn sicr fod y trefniadau goruchwylio sydd ar waith yn gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Ni welsom dystiolaeth fod yr holl risgiau i'r bobl yn y gwasanaeth wedi cael eu nodi a bod camau priodol wedi cael eu cymryd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

Mae rheolwr newydd, sy'n meddu ar y cymwysterau addas, wedi cael ei benodi'n ddiweddar i oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd. Mae'r rheolwr yn adnabod y bobl yn dda ac yn dangos ymrwymiad i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol o ddydd i ddydd. Mae'r rheolwr yn arwain â thosturi a thrugaredd, sy'n modelu'r gwerthoedd a'r safonau a ddisgwylir gan bob aelod o'r staff gofal. Dywedodd y staff gofal wrthym fod aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac yno bob amser i helpu neu gynghori pan fo angen.

Drwy gydol ein hymweliad, gwelsom fod nifer digonol o staff gofal i gefnogi'r bobl. Nid yw'r gwasanaeth yn dibynnu ar staff asiantaeth, sy'n golygu bod y bobl yn cael eu cefnogi gan staff gofal adnabyddus a chyson. Gwelsom y staff gofal yn rhyngweithio mewn ffordd ystyrlon â'r bobl. Dywedodd un aelod o'r staff gofal wrthym, *"You really get time to spend with people and do some lovely things with them".*

Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol, neu'n gweithio tuag at gofrestru. Mae gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ac yn gyfredol. Fodd bynnag, mae'r trefniadau recriwtio, fetio a monitro parhaus sydd ar waith gan y gwasanaeth yn anghyson. Nid oedd cofnodion personél pob aelod o'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Nid oedd rhai o'r ffeiliau yn cynnwys digon o wiriadau hunaniaeth, geirdaon, cofnod llawn o hanes cyflogaeth yr unigolyn na rhesymau dros adael eu gwaith blaenorol â phobl agored i niwed. Nid oedd y trefniadau ar gyfer sefydlu a hyfforddi staff yn ddigon cadarn i sicrhau y gall pob aelod o'r staff gyflawni'r tasgau sy'n gysylltiedig â'i rôl. Rhoddodd yr Unigolyn Cyfrifol sicrwydd y caiff gweithdrefnau mwy diogel ar gyfer recriwtio a hyfforddi staff eu hatgyfnerthu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 6 | Ni all darparwyr y gwasanaeth fod yn hyderus bod ganddynt drefniadau clir ar gyfer goruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y canlyniadau gorau posibl a bod y gwasanaeth yn bodloni gofynion y Rheoliadau. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/08/2024